# Trwyddedu Arfau Tanio
# a
# Phrosiect Titaniwm




## 1 Beth yw Adran Trwyddedu Arfau Tanio Gwent?

Mae Adran Trwyddedu Arfau Tanio Heddlu Gwent yn gyfrifol am roi trwyddedau ar gyfer ffrwydron, arfau tanio a drylliau i drigolion a busnesau yn ardal Heddlu Gwent.

Maen nhw hefyd yn gallu atal neu ddirymu trwyddedau a mynd â ffrwydron, arfau tanio neu ddrylliau mewn rhai amgylchiadau (gweler blychau 3 a 4)

Mae Heddlu Gwent yn rheoli tua 7,000 o dystysgrifau arfau tanio a drylliau.

## 2 Cyd-destun ar gyfer newid

Yn ddiweddar, mae Heddlu Gwent wedi adolygu ei ddull o drwyddedu a monitro arfau tanio ac mae'n sicrhau bod diogelu a diogelwch y cyhoedd wrth wraidd pob penderfyniad.

Cafodd newid ei ysgogi gan yr achos saethu trasig yn Plymouth yn 2021, pan wnaeth ddeiliad tystysgrif gofrestredig saethu a lladd chwe pherson (gan gynnwys ei hun) ac anafu dau arall.

Mae nifer o achosion hefyd wedi bod yng Nghymru lle mae arfau tanio neu ddrylliau wedi cael eu defnyddio yn erbyn dioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys fel offeryn ar gyfer rheoli drwy orfodaeth. Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi manylion am brofiad Rhiannon Bragg a gafodd ei dal o flaen gwn gan ei phartner yn 2019 Domestic abuse: Mum held at gunpoint says stalker will reoffend - BBC News

## 3 Sut mae trwyddedau'n cael eu monitro?

Mae pob deiliad tystysgrif, a'u cyfeiriadau, yn destun monitro. Gall hyn gynnwys ymweliadau wedi'u cynllunio a dirybudd, profion cyffuriau ac alcohol, gwiriadau cyfryngau cymdeithasol, a gwiriadau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, ACRO ac Interpol. Mae hefyd yn bosibl ceisio gwybodaeth gan drydydd partïon fel cyflogwyr, swyddogion prawf, gwasanaethau cymdeithasol, a phartneriaid/aelodau o'r teulu.

Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda throthwy is na'r trothwy ar gyfer cyfrifoldeb troseddol, gan ddefnyddio'r prawf '**yn ôl yr hyn sy'n debygol**'. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pryderon ynghylch cam-drin domestig efallai nad ydyn nhw wedi arwain at euogfarn.

Mae monitro hefyd yn ymestyn i'r rhai sy'n byw gyda deiliad y dystysgrif neu'r rhai sydd â mynediad heb oruchwyliaeth i'r cyfeiriad.

## 4 Rhesymau dros ddirymu:

- Cysylltiadau â throseddwyr hysbys neu droseddwyr dan amheuaeth
- Tystiolaeth o anonestrwydd, neu ymddygiad bygythiol/ymosodol/gwrthgymdeithasol
- Tystiolaeth o ymddygiad diofal, diffyg hunanreolaeth neu ymatal, neu ddiystyru diogelwch eraill
- Arwyddion na fydd yr unigolyn yn trin yr arf tanio yn gyfrifol
- Trefniadau storio diogel yn annigonol
- Tystiolaeth o anawsterau perthynas neu gythrwfl domestig (nid oes rhaid i hyn fod yn gam-drin domestig; gall gynnwys achos ysgariad neu anghytgord ynghylch cystodaeth plant)
- Dyledion heb eu rheoli, pwysau ariannol, gweithgarwch ariannol anarferol neu ffynonellau incwm anesboniadwy
- Cyflyrau meddygol perthnasol (gan gynnwys camddefnyddio alcohol a chyffuriau)
- Diffyg cydymffurfio â thrwyddedau arfau tanio neu fathau eraill o drwyddedau wedi'u dal yn flaenorol

## 5 Prosiect Titaniwm – Cefndir

- Mae Prosiect Titaniwm yn set benodol o gwestiynau wedi'i chreu gan oroeswyr troseddau gwn i helpu nodi a yw cam-drin domestig yn bresennol yng nghartrefi deiliaid arfau tanio trwyddedig neu ddarpar ddeiliaid.
- Cafodd y prosiect ei ddechrau gan Heddlu Gwent ac mae hefyd wedi cael ei dreialu gan yr Heddlu Metropolitanaidd, heddluoedd Swydd Bedford/Swydd Gaergrawnt, a Heddlu Swydd Hertford yn ystod 2022/23.
- Mae llawer mwy o ardaloedd heddlu yn ymuno a'r gobaith yw y bydd y prosiect yn dod yn genedlaethol.
- Mae Prosiect Titaniwm yn caniatáu i leisiau partneriaid gael eu clywed yn ystod y broses trwyddedu arfau tanio, a hyd yn oed os yw'r partner yn gwrthod i ddechrau, mae'n 'gadael y drws yn agored', os ydyn nhw'n dymuno cymryd rhan yn y dyfodol.

## 6 Prosiect Titaniwm – Sut mae'n gweithio

- Mae set o 30 cwestiwn wedi'i chynllunio gan oroeswyr i nodi cam-drin domestig yn cael ei gweinyddu gyda phartneriaid a/neu aelodau o'r teulu.
- Nid oes system sgorio na matrics risg, ond mae'r ymatebion yn cael eu goruchwylio gan reolwr i gynorthwyo gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae'r prosiect wedi cael ei gefnogi yn Llys y Goron lle nodwyd *'Mae Prosiect Titaniwm yn ddull heddlu dilys, ac mae trais domestig yn fater y mae'r ymatebydd yn iawn ei gael ar flaen ei feddwl wrth ystyried a ddylid rhoi tystysgrif arfau tanio ai peidio. Fel y cawson ni ein hatgoffa'n iawn yn ystod y gwrandawiad, mae cael tystysgrif arf tanio yn fraint, yn hytrach na hawl.'*

## 7 Manylion cyswllt

Gall ymarferwyr gysylltu ag Adran Trwyddedu Arfau Tanio Gwent am y rhesymau canlynol:

- Os oes gennych chi bryderon ynghylch person rydych chi'n ei gynorthwyo/gweithio gydag ef
- Os oes gennych chi bryderon neu ymholiadau ynghylch diogelwch staff (er enghraifft gwirio a oes arfau tanio wedi'u cofrestru ar gyfer cyfeiriad cyn ymweld â chartref)
- Rhannu gwybodaeth neu ofyn am wybodaeth.

- **Yr Arolygydd Jodie Davies Jodie.davies@gwent.police.uk**
- **Y Rhingyll Mike Price Michael.pris@gwent.police.uk 07966 747598**
- **Gweinyddol – Alix Lloyd Alix.Lloyd@gwent.police.uk 07970 008447**
- **Firearmslicensing@gwent.police.uk**